# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion cyfarfod rhithiol a gafwyd ar 15 Rhagfyr, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Dafydd Roberts a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Uwch Swyddog Cynllunio (JR)<br>Peiriannydd Rheoli Datblygiadau (Priffyrdd) (WIH)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU :** | Y Cynghorwyr John Griffith a Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts |

---

**1 FPL/2021/136 - CAIS LLAWN AR GYFER NEWID DEFNYDD YR ADEILAD ALLANOL I FOD YN LLETY GWYLIAU YNGHYD Â'I ADDASU A'I EHANGU YN WYLFA, FFORDD BANGOR, BENLLECH.**

Dangoswyd fideo i Aelodau o safle'r cais a oedd yn dangos yr adeilad allanol o dan sylw mewn perthynas ag annedd yr ymgeisydd, y fynedfa a'r ffordd yn arwain at y safle. Dangoswyd yr adeilad allanol presennol fel un oedd â tho ar oleddf ac estyniad ffrâm goed â tho gwastad ar ochr yr adeilad a thŷ allan bach â tho ar oleddf yng nghefn/ochr yr adeilad. Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Cynllunio at yr addasiadau a'r gwaith ehangu arfaethedig a'r hyn oedd yn ei olygu.

Dywedodd yr Aelod Lleol fod y cais yn cynnwys gwneud defnydd amgen o adeilad sydd angen ei drwsio a'i ailwampio a thynnodd sylw at y ffaith bod digon o le i drosi'r adeilad o fewn yr lle sydd ar gael.

Gofynnodd Aelodau am gadarnhad mewn perthynas â materion yn ymwneud â mynediad, parcio a dichonoldeb strwythurol yr adeilad allanol presennol.

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CADEIRYDD**